*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 26 (Cy. 10)

# RHENTI A RHENT-DALIADAU, CYMRU

## Rheoliadau Rhent-daliadau (Pris Adbrynu) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Ionawr 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 10(1) o Ddeddf Rhent-daliadau 1977(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhent-daliadau (Pris Adbrynu) (Cymru) 2017, a deuant i rym ar 10 Chwefror 2017.

**2.** Pris Adbrynu

**3.**—(1) At ddibenion—

(a) adran 9 o Ddeddf Rhent-daliadau 1977(**3**), a

(b) adran 9 o Ddeddf Rhent-daliadau 1977 fel y'i cymhwysir gan adran 20(1) o Ddeddf Landlord a Thenant 1927(**4**),

cyfrifir y pris adbrynu mewn perthynas â thir yng Nghymru drwy gymhwyso'r fformiwla a ganlyn—

(**1**) 1977 p. 30; amnewidiwyd adran 10(1) gan adran 137(1) a (3) o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 (p. 22).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd y swyddogaethau wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Diwygiwyd adran 9(4)(a) gan adran 137(1) a (2) o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016.

(**4**) 1927 p. 36; diwygiwyd adran 20 gan adran 17(1) o Ddeddf Rhent-daliadau 1977, a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi; adran 143 o Ddeddf Tai 1980 (p. 51); ac O.S. 1955/554, 1965/143, 1967/156 a 1970/1681. Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 20 o Ddeddf Landlord a Thenant 1927, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

$$P = £\left(R/Y\right) - \left(R/Y\left(1+Y\right)^n\right)$$

(2) At ddibenion y fformiwla ym mharagraff (1)—

P = y pris adbrynu;

R = swm blynyddol y Rhent-dal (neu, yn ôl y digwydd, y rhent y mae adran 20(1) o Ddeddf Landlord a Thenant 1927 yn berthnasol iddo) i'w adbrynu (mewn punnoedd sterling);

Y = cyfradd aeddfedu, wedi ei mynegi fel ffracsiwn degol, cyfradd log "dros 30 ond nid dros 30.5 mlynedd" y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol; ac

n = y cyfnod, wedi ei fynegi mewn blynyddoedd (gan dalgrynnu unrhyw ran o flwyddyn i flwyddyn gyfan), y byddai'r rhent-dal (neu, yn ôl y digwydd, y rhent y mae adran 20(1) o Ddeddf Landlord a Thenant 1927 yn berthnasol iddo) yn parhau'n daladwy pe na fyddai'n cael ei adbrynu.

(3) Ym mharagraff (2), y gyfradd aeddfedu yw'r gyfradd log sydd wedi ei chyhoeddi ar ddiwedd y diwrnod busnes ar ddiwrnod masnachu olaf yr wythnos cyn yr wythnos y cyflwynir y cyfarwyddiadau i adbrynu o dan adran 9(4) o Ddeddf Rhent-daliadau 1977.

*Carl Sargeant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru

16 Ionawr 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r fformiwla i'w defnyddio wrth gyfrifo pris adbrynu rhent-daliadau a rhenti eraill yng Nghymru.

Mae'r fformiwla yn defnyddio cyfradd log "dros 30 ond nid dros 30.5 mlynedd" gyhoeddedig y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (mae hyn yn darparu gwerth yr "Y" yn y fformiwla ragnodedig). Cyhoeddir cyfraddau llog y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ar wefan Swyddfa Rheoli Dyledion y DU ar www.dmo.gov.uk. Cyhoeddir y cyfraddau llog fel cyfraddau canrannol ac mae angen eu trosi i ffracsiynau degol (eu rhannu â 100) cyn bod modd eu defnyddio yn y fformiwla ragnodedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.